# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(Via Microsoft Teams)**

**Members Present:** **Dydd Llun, 20 Rhagfyr 2021**

**Chairperson:** **Councillor S.Paddison**

**Councillors**: C.Edwards and J.Jones

**Officers in Attendance:** N.Chapple, P.Malough, G.White a/ac N.Jones

---

1. **Croeso a galw'r rhestr**

Croesawodd y Cyng. Paddison bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau

2. **Datganiadau o fuddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

3. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Kitty O'Sheas**

Roedd yr ymgeisydd yn dymuno cael ei gynrychioli'n gyfreithiol ac felly gwnaed penderfyniad na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y cais yn y cyfarfod

4. **Mynediad i gyfarfodydd**

That pursuant to Section 100A(4) and (5) of the Local Government Act 1972, the public be excluded for the following items of business which involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraph 12 and 18 of Part 4 of Schedule 12A of the above Act.

5. **Cais i adolygu Tystysgrif Mangre Clwb – Clwb Rygbi Banwen**

Ystyriodd yr Aelodau gais i adolygu Tystysgrif Mangre Clwb ac ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003:

| | |
|---|---|
| Enw'r clwb | Clwb Rygbi Banwen |
| Cyfeiriad y clwb | Meysydd chwarae Banwen |
| Enw'r ymgeisydd | Mr Nicholas Bailey |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Heddlu De Cymru, URS Abertawe Castell-nedd Port Talbot, Gorsaf Heddlu Castell-nedd, Heol Parc y Gnoll, Castell-nedd SA11 3BW. |
| Enw deiliad trwydded y clwb | Clwb Rygbi Banwen |
| GMD | Mr Norman Thomas |

**PENDERFYNWYD:** Penderfynodd yr Is-bwyllgor addasu amodau'r drwydded mangre fel y byddai'r amodau canlynol yn berthnasol:

a. ***Gwahardd gweithgarwch clwb cymwys rhag cwmpas y Dystysgrif*** am gyfnod o chwe (6) wythnos. Er mwyn osgoi pob amheuaeth, mae'r gwaharddiad yn berthnasol i gyflenwi alcohol yn unig (dydd Llun i ddydd Sul: 10:00 - 00:00) a dim gweithgarwch trwyddedadwy arall. Mae hyn yn golygu bod y fangre'n cael ei hatal rhag cyflenwi alcohol am chwe (6) wythnos; ac
b. ***Addasu amodau'r*** Dystysgrif lle bo hynny'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

1. Ychwanegir yr amodau canlynol at y Dystysgrif, sef:

   a. Ni chynhelir unrhyw ddigwyddiad(au) hyrwyddedig a/neu farchnata allanol yn y fangre sy'n cynnwys pobl dan 18 oed;

   b. Ar bob adeg arall, bydd Deiliad y Drwydded Mangre'n asesu'r angen am oruchwylwyr drysau Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ac yn darparu goruchwyliaeth drws rhwng yr adegau hynny ac yn ôl yr angen sy'n ofynnol gan yr asesiad risg. Bydd dogfen ysgrifenedig yn cael ei chadw a'i darparu i'r Heddlu a/neu swyddogion awdurdodedig y cyngor, ar gais;

   c. Bydd cofrestr ddyddiol o bersonél diogelwch, os caiff ei defnyddio, yn cael ei chynnal. Bydd y gofrestr yn cynnwys y canlynol: enw; cyfeiriad; a rhif trwydded pob goruchwyliwr drws a'r dyddiad(au) a'r amser(au) y maent yn gweithredu. Rhaid i’r gofrestr gael ei chadw i'w harchwilio gan yr Heddlu a/neu swyddog(ion) awdurdodedig y cyngor;

   d. Rhaid gosod system teledu cylch cyfyng ddigidol, neu gynnal system bresennol, yn y fangre a fydd yn weithredol bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd ac yn gallu darparu lluniau o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig adnabod

wynebau. Rhaid i'r recordiadau teledu cylch cyfyng gael eu hamseru a'u dyddio'n gywir, a'u cadw am gyfnod o dri deg un (31) diwrnod, a rhaid trefnu eu bod ar gael i'w gweld gan yr Heddlu a/neu swyddog(ion) awdurdodedig y cyngor, ar gais.

Rhaid i'r system roi sylw i'r meysydd canlynol:

i. Perimedr allanol y fangre;
ii. Mynedfeydd ac allanfeydd y fangre; ac
iii. Ardaloedd cyhoeddus mewnol y fangre.

e. Bydd aelod o staff o'r fangre, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau diweddar i'r Heddlu neu'r swyddog awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon;

f. Rhaid cynnal adroddiad log dyddiol, ynghyd â llofnod, sy'n nodi bod y system wedi'i gwirio a'i bod yn cydymffurfio. Os bydd unrhyw fethiannau, bydd yn rhaid cofnodi'r camau gweithredu. Os bydd methiant technegol gyda'r cyfarpar CCTV, rhaid i Ddeiliad Trwydded y Fangre a/neu'r GMD ddweud wrth yr Heddlu a/neu'r cyngor am y methiant;

g. Rhaid darparu arwyddion amlwg ym mhob rhan o'r fangre ac ym mhob allanfa yn gofyn i bobl adael mewn modd tawel a threfnus er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr lleol.

h. Bydd polisi 'Her 25' yn berthnasol a bydd angen Prawf Oed gan unrhyw berson sy'n ymddangos yn iau na 25 oed sy'n ceisio prynu neu yfed alcohol. Dylai'r modd gwirio fod ar ffurf dull adnabod sy'n cynnwys: llun o'r person; ei ddyddiad geni; a marc holograffig, a dylid ei gyfyngu i;

i. gynlluniau prawf oedran achrededig PASS. e.e. Cerdyn y Dinesydd;
ii. Cerdyn Prawf o Oedran y DU;
iii. Cerdyn ffotograff, trwydded yrru neu basbort.

i. Rhaid arddangos arwyddion mewn man amlwg yn y fangre, gan ddilyn y polisi 'Her 25';

j. Bydd cofrestr o wrthodiadau alcohol yn cael ei chynnal yn y fangre. Bydd y rheolwr dyletswydd a/neu'r GMD yn archwilio'r gofrestr yn rheolaid, a bydd dyddiad ac amser pob archwiliad yn cael ei ardystio yn y gofrestr. Trefnir bod y gofrestr ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu a/neu swyddog(ion) awdurdodedig y cyngor, ar gais;

k. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant achrededig ar gyfer cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag oedran cyn gwerthu alcohol. Bydd hyfforddiant yn cynnwys eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, cynhelir hyfforddiant gloywi o leiaf bob chwe (6) mis. Bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei gofnodi naill ai ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, a threfnir ei fod ar gael i'r Heddlu a/neu swyddog(ion) awdurdodedig y cyngor, ar gais.

## 6. <u>Eitemau brys</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw Eitemau Brys